Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Yr Athro Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru

26 Mehefin 2019

Annwyl Sally,

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru): ymwybyddiaeth plant

Yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), mae nifer o'r rhai sydd wedi rhoi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar wedi codi pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ddeddfwriaeth os caiff ei phasio.

Prif ffocws y cyfraniadau hyd yn hyn fu codi ymwybyddiaeth ymhlith oedolion, yn enwedig rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol. Fel Pwyllgor, rydym hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd ystyried sut y byddai ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth yn cael ei chodi ymhlith plant.

Fel y cyfryw, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu safbwyntiau sydd gennych ar y camau y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried wrth baratoi i godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ymhlith plant, gan gynnwys plant dan oed ysgol. Byddem yn arbennig o ddiolchgar cael eich barn am y dulliau gweithredu y gellid neu y dylid eu datblygu (a sut), a sylwadau sydd gennych ar lefel debygol yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gweithgarwch o'r fath.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, Julie Morgan AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i ofyn am fwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am y mater hwn.

Yn gywir

Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565